| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 25 Mehefin 2013 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol Ysgolion 2012/13 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno’r cyfrifon a sylwadau ar y balansau a’r drefn fonitro |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo’r gweithredu pellach yn ôl y galw |
| **AWDUR** | Dewi R Jones, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Sian Gwenllian |

Atodir pecyn sydd wedi’i anfon i ysgolion (llythyr ac atodiadau 1-5) yn nodi balans neu ddiffyg pob ysgol yng Ngwynedd ar 31/03/2013.

Mae balansau ysgolion Gwynedd wedi lleihau o £624,303 yn ystod 2012/13 i £3,813,317.

Mae gan 12 ysgol ddiffyg ar ddiwedd 2012/13 gydag amrediad sirol rhwng £564 a £181,017

Amlinellir y drefn ac amserlen ble mae ysgolion yn adrodd yn ôl i’r Pennaeth Addysg, yn unol â’r Cynllun Ariannu, os yw balansau dros 5% . Mewn sefyllfaoedd ble mae balansau cynradd dros £50,000 a hefyd dros 8% ac yn y sector uwchradd ac arbennig bod balansau dros £100,000 a hefyd dros 8%, nodir grym gweithredu y Pennaeth Addysg i gyfarwyddo Corff Llywodraethu sut i wario elfen o’u balansau. Goblygiadau peidio â gweithredu yn unol â’r cyfarwyddid fyddai talu arian yn ôl i’r Gwasanaeth Addysg.

Yng nghyfarfod y Fforwm ar 04/02/2013 adroddwyd ar amcangyfrif balansau ysgolion erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Rhwng gosod cyllideb 2012/13 a diwedd y flwyddyn ariannol, mae balansau ysgolion yn uwch o £1,398,796 na’r amcangyfrif gwreiddiol. Bwriedir targedu rhai ysgolion i adnabod a deall y rhesymau dros y cynnydd mewn balansau yn ystod y flwyddyn gyllidol ac adrodd ar y canfyddiadau i cyfarfod y Fforwm yn ystod tymor yr Hydref.